

Adolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru



Beth wnaethon ni ddysgu Beth
rydyn ni'n credu y dylai ddigwydd



Gorffennaf 2018



Hawdd ei darllen



Beth wnaethon ni ddysgu



? Yn 2017/2018, adolygon ni wasanaethau camddefnyddio sylweddau.



Dyma beth wnaethon ni ddysgu.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael gofal da gan staff da.



Ni all pobl gael y cymorth iawn bob amser.



Mae angen i weithwyr proffesiynol fel meddygon a gweithwyr cymdeithasol wybod mwy am gamddefnyddio sylweddau.



Mae angen i wasanaethau weithio a hyfforddi gyda'i gilydd.



Mae angen i'r bobl hyn wneud rhywbeth am beth ddysgon ni:




- **Gwasanaethau sy'n rhoi gofal a chymorth**
- **Y bobl sy'n penderfynu pa wasanaethau i dalu amdany'n nhw**
- **Llywodraeth Cymru**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwelson ni yr un math o bethau yn ein hadolygiad yn 2012 o wasanaethau camddefnyddio sylweddau.



Mae'r tudalennau nesaf yn dweud mwy wrthoch chi am beth ddysgon ni.



A all pobl gael y driniaeth iawn?



Gwelson ni:



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael triniaeth dda.



Mae rhai pobl yn gorfod aros yn rhy hir am rai mathau o driniaeth.



Monday	✓
Tuesday	✓
Wednesday	✓
Thursday	✓
Friday	✓
Saturday	✗
Sunday	✗

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau ar gau gyda'r nos ac ar benwythnosau. Efallai na fydd pobl yn cael cymorth da mewn argyfwng.



Mae'n anoddach cael y driniaeth iawn mewn ardaloedd gwledig.



Gall fod yn anodd cael gwybod ble i gael help.



Mae sesiynau galw i mewn yn ddefnyddiol.



Mae angen mwy o ddewis a gwasanaethau mwy dibynadwy yng Nghymru.



Mae angen mwy o waith i:



- cynnwys pobl wrth ddylunio a chynllunio gwasanaethau



- deall beth mae ei angen ar rai grwpiau o bobl, er enghraifft pobl ddigartref.



A yw gwasanaethau yn ei gwneud yn hawdd i gael gofal da?



Gwelson ni:




Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bethau da am eu gofal.



Roedd staff yn awyddus i helpu pobl ac nad oedden nhw yn eu barnu.



Mae gormod o bobl yn dal i edrych i lawr ar bobl sy'n camddefnyddio sylweddau.



Mae gwasanaethau yn treulio llawer o amser yn helpu pobl gyda thai a budd-daliadau.



Mae angen cymorth ar fwy o bobl gan lawer o wasanaethau gwahanol. Mae angen i wasanaethau weithio'n well gyda'i gilydd.

Roedd pobl yn ei chael hi'n anodd cael help gyda'u hiechyd meddwl.



Sut mae pawb yn cael eu cadw'n ddiogel?



Gwelson ni:



Mae staff yn gofyn cwestiynau i weithio allan os nad yw unrhyw oedolyn neu blentyn yn ddiogel.



Mae staff yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n credu nad yw oedolyn neu blentyn yn ddiogel.



Roedd pobl yn teimlo nad oes digon o gymorth i deuluoedd a gofalwyr.



Mewn rhai rhannau o Gymru, dywedodd pobl bethau da am weithwyr cymdeithasol camddefnyddio sylweddau.



Nid yw rhai gweithwyr cymdeithasol yn deall camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau triniaeth.



Mae Byrddau Cynllunio Ardal yn gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau sy'n cael eu darparu yn eu hardal. Mae pob bwrdd yn cynnwys pobl o'r bwrdd iechyd, yr heddlu, awdurdodau lleol ac eraill.



Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal gael gwell systemau i sicrhau bod pawb yn cael eu cadw'n ddiogel.



Beth sy'n digwydd ar ôl y driniaeth?



Gwelson ni:



? Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud pethau da am y cymorth ar ôl iddyn nhw orffen triniaeth.



Nid oedd rhai pobl yn cael cymorth ar ôl mynd adref o ddadwenwyno (*detox*) neu adsefydlu (*rehab*).



Dywedodd staff wrthon ni fod angen mwy o wasanaethau lleihau niwed ar Gymru. Mae'r rhain yn wasanaethau i helpu pobl i fod yn fwy diogel os ydyn nhw'n dal i gamddefnyddio sylweddau.



Mae angen cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau a chymunedau yng Nghymru.



A yw gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn dda?



Gwelson ni:



Mae staff yn meddwl bod gwasanaethau lleol yn cael eu rhedeg yn dda.



Gwelson ni staff yn gweithio'n galed.



Clywson ni am broblemau gyda chyfrifiaduron, gwaith papur, swyddfeydd, gormod o waith a dim digon o arian.



Mae gwasanaethau wedi'u sefydlu yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae pobl yn talu amdany'n nhw mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael gwasanaethau gwahanol. Mae'n fwy anodd gwybod os ydyn nhw'n dda neu'n ddiogel.



Mae angen gwell systemau ar Fyrddau Cynllunio Ardal i wirio gwasanaethau, i wybod a ydyn nhw'n dda ac yn ddiogel.



Ein syniadau ar gyfer y dyfodol



Mae 34 o argymhellion yn yr adroddiad llawn.

Y rhain yw'r pethau rydyn ni'n dweud y mae angen iddyn nhw ddigwydd.

Yn y fersiwn Hawdd ei Darllen hon, gwnaethon ni roi'r argymhellion i mewn i 13 pwynt allweddol.

1. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal feddwl sut y gall gwasanaethau gwrdd ag anghenion gwahanol bobl.



Mae hyn yn cynnwys anghenion oedolion hŷn, yr angen am dai, anghenion gofalwyr teuluol a phobl mewn ardaloedd gwledig. Mae hefyd angen iddyn nhw feddwl pa wasanaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol.



2. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod digon o wasanaethau dadwenwyno, adsefydlu a chwnsela.

Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal ddweud wrth bobl am grwpiau cymorth. Mae angen mwy o grwpiau cymorth gwledig.



3. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru ddweud wrth bawb, gan gynnwys meddygon teulu a gweithwyr cymdeithasol, am wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac am gamddefnyddio sylweddau.



Mae angen cynllun ar Fyrddau Cynllunio Ardal ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol mewn camddefnyddio sylweddau.



4. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal gynnwys pobl wrth ddylunio a rhedeg gwasanaethau.



5. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal wneud i wasanaethau weithio gyda'i gilydd yn well.

Mae hyn yn cynnwys cael gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i weithio gyda'i gilydd yn well. Mae hefyd yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.



6. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru feddwl sut gall pobl gael triniaeth a chymorth pan fydd ei angen arnyd nhw.





Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau, amseroedd aros byrrach, cymorth ar ôl triniaeth a chymorth i fod yn fwy diogel. Rhaid i Fyrddau Cynllunio Ardal ddweud wrth bobl am gymorth arall pan maen nhw'n aros am driniaeth.



7. Rhaid i Fyrddau Cynllunio Ardal wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud gwaith da yn cadw pawb yn ddiogel



8. Rhaid i Fyrddau Cynllunio Ardal ddweud wrth bobl sut i gael help i ddweud eu dweud a defnyddio eu hawliau. Yr enw ar hyn yw eiriolaeth annibynnol.



9. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal wella cysylltiadau gyda gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol.



10. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau yn cael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud gwaith da.



11. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwirio'r pethau iawn pan maen nhw am gael gwybod a yw gwasanaethau yn gwneud gwaith da.



12. Mae angen i Lywodraeth Cymru wirio ai Byrddau Cynllunio Ardal yw'r ffordd orau i wneud yn siŵr bod pobl leol yn cael cymorth a thriniaeth dda.



Mae angen iddyn nhw wneud yn siwr mai Byrddau Cynllunio Ardal yw'r ffordd orau i gadw pobl yn ddiogel.



13. Mae angen i Fyrddau Cynllunio Ardal wella sut maen nhw'n gwneud pethau.



Beth sy'n digwydd nesaf?



Rydyn ni am i Lywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal edrych ar yr adroddiad hwn.



Rydyn ni am iddyn nhw feddwl am y pethau rydyn ni'n dweud y dylai ddigwydd.



Rydyn ni am i rywun edrych ar y tri pheth arall hyn:



- symud o wasanaethau camddefnyddio sylweddau plant i rai oedolion



- camddefnyddio sylweddau a phobl mewn trafferth gyda'r gyfraith



- ffyrdd o benderfynu ar wasanaethau a thalu amdany'n nhw